*O dud. 14*

Williams yn ôl i Gaernarfon. Yr oedd yn rhy hwyr. Bu farw Judith yn oriau mân y bore, 21 Medi 1888.

*'It was evident that the condition of the deceased had deteriorated by the afternoon' (C.D.H.)*

Fe archwiliodd y doctor gorff Judith yn 'drwyadl', a sylwodd fod cleisiau ar ei chorff, ac *'archoll bychan ar ei gwddf,' (G.G., H.C.)*. Prin bod geiriau'r ddau newyddiadur yn gofnod cywir o ddyddiau olaf Judith:

*'Bu i'r foneddiges . . . farw yn dawel ar ôl cystudd byr.' (ibid)*

Fe gynhaliwyd archwiliad meddygol pellach ar 22 Medi, er nad yw'r adroddiad yn y wasg yn bendant eglur ynglŷn â natur yr archwiliad hwn.

Cafwyd tystiolaeth gan Catherine Davies am nychdod ei meistres, ac fel y gwelwyd, fe fanylodd am y synau dieithr a'r geiriau enbyd a glywodd yn y llofft. Tystiodd Richard Hall Williams am iechyd bregus ei wraig, a dymunodd roddi teyrnged i'r Dr H. V. Roberts am ei wasanaeth cyson a'i ofal mawr *(ibid.)*.

* * * *

CYFEIRIODD y meddyg yntau at gyflwr egwan Judith Hall Williams. Manylodd, yn arwyddocaol iawn, am ei natur, merch dawel, oddrychol — *'given to much introspection' (C.D.H.)*.

Yr oedd peth hanes am y 'pruddglwyf', yn ei theulu, ond nid oedd hi erioed wedi trafod ei chyflwr meddyliol gydag o. Ni allai fynegi barn ar yr hunllefau na chynnig esboniad am y cleisiau ar gorff Judith.

Yr oedd yr achos am yr 'archoll' ar ei gwddf hefyd yn ddirgelwch iddo. Credai ei bod wedi colli gwaed yn arw yn ystod ei gwaeledd, ac mai dyma oedd y prif achos am ei marwolaeth *(H.C., G.G., N.W.C., Cofnodion Plwyf Llanbeblig)*.

Fe symudodd Richard Hall Williams o Gaernarfon yn 1892 *(H.C.)*, gan werthu'r Gwylfa. Erbyn 1894 yr oedd yn cynnal ei fusnes yn y Rhyl *(Guide to Rhyl and District)*. Ni wn i ddim am weddill ei yrfa nac am ddyddiad ei farwolaeth.

Gadael Caernarfon fu hanes y Dr H. V. Roberts hefyd, bu'n gweithio yn Lloegr am flynyddoedd — yn Colchester yn Essex, ac wedi ei ymddeoliad fe aeth i fyw yn Broadstairs yn Swydd Caint.

Yn ystod ei ymddeoliad fe ysgrifennodd Henry V. Roberts gyfrol o atgofion am ei waith yn feddyg, sef *A Doctor Remembers* (1931). Cyfrol a gyhoeddwyd yn breifat ydi hon, mae'r rhifyn ar fy nesg yn bymthegfed o argraffiad o bedwar ugain.

Digon llwydaidd ydi'r manylion am waith y meddyg ifanc yng Nghaernarfon, ceir ambell gyfeiriad at unigolion y bu'n eu trin yn ôl y côd arferol, 'Mr A', 'Mrs O'. Ond nid oes modd cam-adnabod ei gyfeiriadau at achos Judith Hall Williams *(ibid., 31-2)*, sef 'Mrs Y'.

Mae'r sylwadau yma yn dehongli llawer mwy na'r hyn a fynegodd y doctor yn yr archwiliad swyddogol, dair a deugain o flynyddoedd yn ôl yng Nghaernarfon:

*'Mrs Y came from a family in which mental diseases were observed.'*

Ym marn y meddyg yr oedd Judith yn dioddef o 'hysteria', ond yr oedd hi hefyd, yn ei digalondid parhaol, a'i hunigrwydd, yn byw ymhell o bresenoldeb ei gŵr, dyn 'pur bell ac oeraidd'. Nid oes dim, bron, sydd yn newydd yma.

* * * *

Y PARAGRAFF canlynol sy'n ceisio datgelu'r gwir am farwolaeth Judith Hall Williams. Mae H. V. Roberts yn cyfeirio at waith pwysig Ernest Jones, *'On the Nightmare'*, (Ernest Jones y seicolegwr, a fu'n briod am gyfnod byr iawn â Morfudd Llwyn Owen; roedd Jones yn ddisgybl nodedig i Sigmund Freud).

Y gwaith hwn oedd yr astudiaeth ddifrifol gyntaf ym maes dadansoddi seicolegol a oedd yn ceisio egluro y credöau am y sugnwr gwaed — *'vampyre'*.

Mae dwy elfen yn nadansoddiad Ernest Jones, sef y disgrifiad o'r sugnwr gwaed fel ymgorfforiad o berson marw, a'r manylu am y sugno — sugno gwaed person byw, gan fod felly'n gyfrifol am farwolaeth y person hwnnw. Yn ôl Ernest Jones, mae seiliau'r syniad am y sugnwr gwaed yn perthyn i fyd breuddwydion:

*'. . . the idea of the vampire proper is derived from dream life . . .'*

Yn y cyd-destun hwn yr eglurir y cleisiau ar gorff Judith, gan eu disgrifio fel clwyfau a achoswyd ganddi hi ei hun yn ei chwsg:

*'. . . during an erotic and lascivious dream . . .' (A Doctor Remembers)*

Disgrifir y cleisiau felly yn ôl dehongliad seicolegol.

* * * *

YN Y pargraff nesaf fe gyfeirir at waith Richard von Krafft-Ebing, *Psychopathia Sexualis* (1886), (roedd Krafft-Ebing yn Athro Seiceiatreg ym Mhrifysgol Vienna, mae ei waith erbyn heddiw yn bur ddirmygedig), ac at y disgrifiadau sydd ganddo ef o arferion masocistaidd nwyd eithafol. Mae Krafft-Ebing yn disgrifio nifer o achosion o ddynion a merched a oedd yn sugnwyr gwaed, a bod y weithred o sugno iddynt hwy yn gyffelyb i wefr rywiol.

Yn ôl H. V. Roberts yr oedd Judith Hall Williams yn 'ei meddyliau tywyll' a'i hunllefau ofnadwy — *'her terrible dreams'*, yn gwahodd ffurf ar y sugnwr gwaed i'w gwely, i gael ei chofleidio ganddo:

*'. . . to be embraced until she was exhausted . . .' (A Doctor Remembers)*

Ar ôl hyn yr oedd hi'n rhoi ei gwaed iddo'n wirfoddol.

Dyma, yn ôl ei meddyg, ydi'r esboniad am yr 'archoll' ar wddf Judith. Dyma'r modd y bu'n colli gwaed, yn marw. Ym marn y meddyg fe ddigwyddodd rhywbeth ffiaidd ac enbyd i Judith Hall Williams ym mis Medi 1888 — rhywbeth a berthyn i ffaith, i ofergoel, ac i gyflwr y meddwl.

Bu farw Henry V. Roberts yng nghartref ei fab ym 1941.

Claddwyd Judith Hall Williams ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon.


FFYNONELLAU

A. *Caernarvon and Denbigh Herald* (1883, 1888); *Y Genedl Gymreig* (1886, 1888); *Yr Herald Cymraeg* (1886-87, 1888); *Kentish Times* (1931-1941); *North Wales Chronicle* (1888).

B. Cofnodion Plwyf Llanbeblig (1888-93); Dyddiadur Judith Hall Williams, Gwylfa (1888); Llawysgrifau W. J. Parry, Coetmor.

C. *A Guide to Rhyl and District* (1894; Ernest Jones, *On the Nightmare* (d.d.); Richard von Krafft-Ebing, *Psychopathia Sexualis* (1886); H. V. Roberts, *A Doctor Remembers* (1931).


# Tri dyddiadurwr o fro'r Brifwyl

Gan NEVILLE MORRIS

ELENI cyhoeddwyd y trigeinfed cyfrol o *Trafodion Cymdeithas Maesyfed*, ac yn y gyfrol hon y mae R. C. B. Oliver, o Landrindod, yn parhau ei adolygiad manwl a chraff o ddyddiadur y Capten Frederick Jones, Pencerrig, a ddechreuodd yn y tair cyfrol flaenorol.

Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn mynd i ymgartefu yn Llanelwedd yn 1993 purion peth fyddai ymgydnabyddu ag un arall o feibion Pencerrig, gan imi gyfeirio at ei frawd, Thomas, yr arlunydd, yn rhifyn 39 (1989).

Ganwyd Frederick yr olaf ond un o blant Thomas a Hannah Jones ym Mhencerrig, ger Llanelwedd, ar 19eg o Chwefror 1758. Derbyniodd beth o'i addysg foreol yn ysgol Kingswood, ger Bryste, a sefydlwyd gan John Wesley yn 1740. (Yn y darn olaf o'i ddyddiadur sonia amdano yn cymryd taith o Aberystwyth i fyny am y Bala, ac yn aros hefo Simon Lloyd a fu'n gyd-ddisgybl ag ef yn yr ysgol hon.)

Ymunodd wedyn â'r Academi neu'r Hen Ysgol Ramadeg yng Nghaerfyrddin. Dealla Mr Oliver fod myfyriwr o'r enw Frederick Jones yn fyfyriwr yn Neuadd St. Edmund, Rhydychen, o fis Mawrth hyd Tachwedd, 1776.

Erbyn y flwyddyn ddilynol fodd bynnag ac yntau yn 19 mlwydd oed yr oedd Frederick wedi ymuno yng ngwasanaeth milwrol yr Honourable East Indian Company, ac anfonwyd ef i Bombay. O'r amser hwnnw ymlaen dechreuodd gadw dyddiadur.

Bu yng ngwasanaeth y cwmni am yn agos i ddeng mlynedd gan godi yn y diwedd i fod yn gapten. Eithr ymhen y flwyddyn wedi ei ddyrchafiad, dychwelodd yn ôl i Brydain, gan lanio yn Llundain ar Hydref 1788, wedi cymryd dros flwyddyn i gwblhau y fordaith. A dyna pryd y clywodd fod John ei frawd hynaf wedi marw yn ystod mis Mai.

* * * *

DAETH Frederick yn ôl i Gymru a phriodi ac ymgartrefu yn Aberhonddu. Yr oedd yn ŵr o ddysg ac yn meddu gwybodaeth am Roeg, Lladin, Ffrangeg, Hebraeg a pheth Cymraeg.

Ymddengys iddo gadw dyddiadur o 1777 hyd Chwefror 1827, ond dinistriodd ddyddiaduron a gofnododd cyn y cyfnod militaraidd er iddo eu defnyddio fel sylfaen i 'Narrative' a gyhoeddwyd yn ddi-enw ganddo yn niwedd 1794 yn Aberhonddu.

Mae ei ddyddiadur sydd ar gael yn cofnodi'r blynyddoedd o 1788 (er mai prin a dibris iawn yw'r cofnodion am y flwyddyn hon nes y deuir i Awst 1789), ac yn gorffen yn y flwyddyn 1827.

Mae'r dyddiadur gwreiddiol hwn y cefais y fraint o'i weld yn eiddo i Mrs Churchill o Garthmyl, sydd yn ddisgynnydd i Sarah, chwaer Frederick. (Dylwn atgoffa y darllenydd mai dim ond y ddwy chwaer Sarah ac Elizabeth a fu'n foddion i barhau y tylwyth anghyffredin hwn i'r presennol.)

Mawr obeithiwn y gall R. B. Oliver, sydd mewn cryn oedran, barhau i orffen adolygu y darn olaf o'r dyddiadur a ddaw allan y flwyddyn nesaf ni a obeithiwn. Buasai'n dda pe gallesid wedyn ei gyhoeddi'n llyfryn cyfan.

Down yn awr at yr ail ddyddiadur, sef Thomas ei frawd, a gadwodd ddyddlyfr o'r amser y dechreuodd ar ei yrfa fel arlunydd, ac sydd bellach wedi ei gyhoeddi ac wedi cael ei gydnabod fel clasur o ddyddlyfr gan artist o'r ddeunawfed ganrif.

Cefais yr hyfrydwch yn ystod yr haf eleni i weld y dyddiadur gwreiddiol hwn ynghyd ag un o *sketch books* yr arlunydd, sy'n eiddo i Mrs Evan Thomas o Tunbridge Wells, gweddw i un o ddisgynyddion Elizabeth, chwaer arall yr arlunydd.